Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 25 Ebrill 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | P K Jones | L R Jones |
| A Pugh | C Richards | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau Tai |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins

---

**51 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd C Richards gysylltiad personol â chofnod rhif 54 – Cynllun Gwaith ar gyfer 2018/19 – Llywodraethwr Ysgol Gyfun Penyrheol.

**52 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

**53 Digartrefedd.**

Rhoddodd Steve Porter, Rheolwr Gweithrediadau Tai, gyflwyniad ar gynllun Tai'n Gyntaf.

Yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf, rhannwyd 2 ddogfen ag aelodau'r pwyllgor a chawsant eu cynnwys yn y pecyn agenda hefyd:

- Tai'n Gyntaf – atebion ar gyfer cysgu ar y stryd a digartrefedd a arweinir gan dai (wedi'i lunio gan y Ganolfan dros Gyfiawnder Cymdeithasol);

- Tai'n Gyntaf (HF) – Egwyddorion ac Arweiniad Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Esboniodd y Rheolwr Gweithrediadau Tai gefndir Tai'n Gyntaf (HF), pam y dylai'r awdurdod lleol ei ystyried, ei fanteision, gan gynnwys yr heriau sy'n gysylltiedig, a sut gellid ei ddatblygu yn Abertawe.

Roedd sylwadau gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Pryder am sut byddai cymunedau'n ymateb i gael pobl ddigartref yn eu hardaloedd, fodd bynnag mae'r mwyafrif o gymunedau'n tueddu i "ofalu am eu pobl eu hunain";
- Mae defnyddio cynllun HF yn golygu bod yr angen yn cael ei ledaenu ar draws y ddinas yn hytrach na bod yn yr un lle;
- Cydnabuwyd na fyddai'n addas i bawb sydd mewn angen, ond o leiaf byddai'r rheiny sydd yn manteisio ar y cynllun yn cael eu lletya mewn ardal maent yn ei dewis yn hytrach nag un sy'n cael ei dewis iddyn nhw neu orfod mynd i hostel;
- Bydd angen i dimau iechyd meddwl chwarae rôl bwysig yn y gwaith partneriaeth y bydd angen ymgymryd ag ef;
- Mae angen rhoi'r holl egwyddorion ar waith er mwyn iddo weithio;
- Gall fod yn anos i HF weithio ar gyfer pobl ifanc;
- Mae angen hefyd ymagwedd ar y cyd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal;
- Bydd angen i gynghorwyr lleol gael y diweddaraf lle bo'n bosib - gan ystyried y rheolau GDPR newydd;
- Mae gwaith da yn mynd rhagddo o hyd gyda'r Uned Hawliau Lles mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol;
- Cyhoeddwyd newidiadau i gefnogaeth llog morgeisi'n ddiweddar – sut byddai hyn yn effeithio ar y cynllun?
- Mae angen sicrhau y nodir y “bobl ddigartref gudd” hefyd, gan gynnwys pobl ifanc sy'n aros ar soffas cyfeillion;
- A fyddai'r cyllid gan LIC yn ddigon ar gyfer y cynllun? Oddeutu £12,000 y flwyddyn i letya person gan ddefnyddio cynllun HF.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 54 Cynllun Gwaith ar gyfer 2018/19. (Llafar)

Trafododd y pwyllgor y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn ystod blwyddyn ddinesig 2017-2018.

Awgrymwyd bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn o hyd – cost gwisg ysgol, prydau ysgol am ddim, banciau bwyd a chyflogau isel yng Nghymru i deuluoedd sy'n gweithio sy'n arwain at bobl dlawd sy'n gweithio. O ystyried y materion hyn, hoffai'r pwyllgor argymell bod y pwyllgor yn ystyried "Pobl Dlawd sy'n Gweithio" fel thema ar gyfer Cynllun Gwaith 2018/19.

**Penderfynwyd** y byddai "Pobl Dlawd sy'n Gweithio" yn cael ei argymell fel thema ar gyfer pwyllgor y dyfodol yn 2018/19.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**